

Archwiliad FfLIRh Blwyddyn 7 Llafaredd

Elfennau	Agweddau	Cod	Mae plant yn gallu:	Disgybl gyfeillgar
Datblygu a chyflwyno gwybodaeth a syniadau	Siarad	7.OS2	cyflwyno pynciau a syniadau'n eglur gan ddefnyddio iaith ffurfiol ac amrywio'r hyn y maent yn ei ddweud a sut maent yn ei ddweud er mwyn ennyn diddordeb y gwrandawyr, <i>e.e. mynegiant, tôn y llais, cryfder y sain</i>	Gallaf gyflwyno pynciau a syniadau yn eglur. Gallaf ddefnyddio iaith ffurfiol. Gallaf amrywio'r hyn yr wyf yn ei ddweud a sut yr wyf yn ei ddweud er mwyn cadw diddordeb gwrandawyr, <i>e.e. mynegiant, tôn y llais, cryfder y sain</i>
		7.OS4	ymateb i gwestiynau a sylwadau'r gwrandawyr yn adeiladol ac yn fanwl	Gallaf ymateb i gwestiynau a sylwadau'r gwrandawyr mewn ffordd ddefnyddiol a manwl.
		7.OS5	dadlau'n llawn argyhoeddiad gan ddefnyddio gwybodaeth am y pwnc yn effeithiol, <i>e.e. wrth chwarae rôl neu mewn dadl</i>	Gallaf ddadlau achos yn llawn argyhoeddiad, gan ddefnyddio gwybodaeth rydw i wedi dysgu <i>e.e. wrth chwarae rôl neu mewn dadl</i>
		7.OS6	Datganiad cyfrwng Cymraeg: defnyddio ystod o dreigladau'n gywir (treigladau meddal, trwynol a llaes) yn eu cyd-destun	Gallaf ddefnyddio ystod o dreigladau'n gywir (treigladau meddal, trwynol a llaes) yn eu cyd-destun
	Gwrando	7.OL1	ymateb yn bwyllog i syniadau eraill, gan ofyn cwestiynau cymwys	Byddaf yn ymateb yn feddylgar i syniadau pobl eraill. Rwyf yn gallu gofyn cwestiynau perthnasol mewn ymateb.
		7.OL3	gwrando ar esboniadau o brosesau, dilyniant neu safbwyntiau a nodi'r prif bwyntiau yn eu trefn.	Gallaf wrando ar esboniadau o brosesau, dilyniant neu safbwyntiau. Gallaf adnabod y prif bwyntiau yn eu trefn.
	Cydweithredu a thrafodaeth	7.OC1	gwneud amrywiaeth o gyfraniadau i drafodaethau, <i>e.e. arwain, annog a chefnogi eraill</i>	Gallaf gyfrannu i drafodaethau mewn gwahanol ffyrdd. <i>e.e. arwain, gofyn cwestiynau, a chanmol eraill.</i>
		7.OC2	cyrraedd consensws a chytuno ar gamau gweithredu mewn grwpiau, <i>e.e. cytuno ar gynllun, pwyso a mesur rhesymau a thystiolaeth.</i>	Gallaf helpu pawb yn y grŵp i gytuno a phenderfynu ar y camau nesaf. <i>e.e. cytuno ar gynllun, pwyso a mesur rhesymau a thystiolaeth.</i>

Archwiliad FfLIRh Blwyddyn 7 Darllen

Elfennau	Agweddau	Cod	Mae plant yn gallu:	Disgybl gyfeillgar
Canfod, dethol a defnyddio gwybodaeth	Strategaethau darllen	7.RS2	defnyddio eu gwybodaeth am y canlynol: - tarddiadau a theuluoedd geiriau - cystrawen, strwythur y frawddeg a strwythur testun cyfan - cynnwys a chyd-destun <i>i wneud synnwyr o eiriau, brawddegau a thestunau cyfan</i>	Gallaf ddefnyddio fy ngwybodaeth am: - - darddiadau geiriau - cystrawen, strwythur y frawddeg a strwythur testun cyfan - cynnwys a chyd-destun <i>i wneud synnwyr o eiriau, brawddegau a thestunau cyfan</i>
		7.RS5	defnyddio ystod o strategaethau, e.e. <i>darllen cyflym, darllen agos, anodi, rhagfynegi, i gipddarllen (sgimio) testunau i gael y neges, y syniadau a'r themâu allweddol, a'u llithr ddarllen (sganio) am wybodaeth fanwl</i>	Gallaf ddarllen gan ddefnyddio gwahanol strategaethau. e.e. <i>darllen cyflym, darllen agos, anodi, rhagfynegi, i gipddarllen (sgimio) testunau i gael y neges, y syniadau a'r themâu allweddol, a'u llithr ddarllen (sganio) am wybodaeth fanwl</i>
		7.RS8	asesu ansawdd a dibynadwyedd gwybodaeth ar dudalennau'r rhynggrwyd gan ystyried o ble mae'n dod a gwirio pa mor gywir yw hi.	Gallaf asesu ansawdd a dibynadwyedd y wybodaeth ar dudalennau'r rhynggrwyd, gan ystyried pwy a'i ysgrifennodd a phryd, er mwyn gwirio pa mor gywir yw hi
Ymateb i'r hyn a ddarllenwyd	Deall	7.RC1	canolbwyntio wrth ddarllen testunau, ar sgrin ac ar bapur, sydd yn newydd iddynt gan ddeall yr wybodaeth sydd ynddynt	Rwyf yn gallu darllen gan ganolbwyntio ar destunau ar y sgrin ac ar bapur sy'n newydd i mi, a deall y wybodaeth ynddynt.
		7.RC3	dewis y prif bwyntiau mewn testunau ac adnabod sut mae gwybodaeth a thystiolaeth yn cael eu defnyddio i'w hategu	Gallaf ddewis y prif bwyntiau mewn testunau ac adnabod sut mae gwybodaeth a thystiolaeth yn cael eu defnyddio i'w hategu
		7.RC4	darllen rhwng y llinellau gan ddehongli a dod i gasgliad	Rwyf yn gallu darllen rhwng y llinellau gan ddehongli a dod i gasgliad i weld o dan yr wyneb.
		7.RC5	adnabod sut y trefnir testun, e.e. <i>yn rhesymegol neu'n thematig, er mwyn gwneud i'r cynnwys fod yn eglur ac yn llawn</i>	Gallaf nodi sut mae testun yn cael ei drefnu. e.e. <i>yn rhesymegol neu'n thematig, er mwyn gwneud i'r cynnwys</i>

			<i>gwybodaeth</i>	<i>fod yn eglur ac yn llawn gwybodaeth</i>
		7.RC6	dilyn syniadau cychwynnol sydd o ddiddordeb iddynt drwy wneud rhagor o ymchwil	Gallaf ddilyn syniadau cychwynnol sydd o ddiddordeb i mi drwy wneud rhagor o ymchwil

Archwiliad FfLIRh Blwyddyn 7 Darllen

Elfennau	Agweddau	Cod	Mae plant yn gallu:	Disgybl gyfeillgar
Ymateb i'r hyn a ddarllenwyd	Ymateb a dadansoddi	7.RA3	cydgasglu a chrynhoi gwybodaeth berthnasol, e.e. dwyn ynghyd a chrynhoi ffeithiau a syniadau am bwnc, o destunau gwahanol	Gallaf gasglu a chrynhoi gwybodaeth berthnasol e.e. dwyn ynghyd a chrynhoi ffeithiau a syniadau am bwnc, o destunau gwahanol
		7.RA4	gwahaniaethu rhwng ffeithiau, damcaniaethau a barn gan ddefnyddio tystiolaeth i ddangos y gwahaniaethau	Gallaf ddweud y gwahaniaeth rhwng ffeithiau, damcaniaethau a barn. Gallaf ddefnyddio tystiolaeth i ddangos y gwahaniaethau.
		7.RA5	cymharu safbwyntiau ar yr un pwnc a phwyso a mesur p'un yw'r mwyaf dilys	Gallaf gymharu safbwyntiau ar yr un pwnc a phwyso a mesur p'un yw'r mwyaf dilys
		7.RA6	gwerthuso cynnwys, cyflwyniad ac apêl testun.	Gallaf werthuso cynnwys, cyflwyniad ac apêl testun.

Archwiliad FfLIRh Blwyddyn 7 Ysgrifennu

Elfennau	Agweddau	Cod	Mae plant yn gallu:	Disgybl gyfeillgar
Trefnu syniadau a gwybodaeth	Ystyr, pwrpasau, darllenwyr	7.WM1	ysgrifennu adroddiad cynhwysfawr am bwnc gan gyflwyno gwybodaeth, prosesau a syniadau'n glir ac yn addas at y diben	Gallaf ysgrifennu adroddiad cynhwysfawr am bwnc gan gyflwyno gwybodaeth, prosesau a syniadau'n glir ac yn addas at y diben
		7.WM2	esbonio syniadau'n gyflawn gan ddangos goblygiadau a chanlyniadau	Gallaf esbonio syniadau yn llawn a chreu darlun o'r canlyniadau posibl.

		7.WM3	cynllunio gwaith ysgrifennu gan wneud penderfyniadau ynglŷn â'r ffyrdd gorau o gyflwyno cynnwys i greu effaith, <i>e.e. paratoi achos ar gyfer rhywbeth, dewis manylion sy'n helpu'r darllenydd i ddeall</i>	Gallaf ddewis y ffyrdd gorau o gyflwyno cynnwys i greu effaith <i>e.e. paratoi achos ar gyfer rhywbeth, dewis manylion sy'n helpu'r darllenydd i ddeall</i>
		7.WM4	defnyddio offer a chonfensiynau TGCh i gyflwyno gwybodaeth a data ac i strwythuro ysgrifennu	Gallaf ddefnyddio TGCh yn llawn i gyflwyno gwybodaeth a data ac i strwythuro ysgrifennu
		7.WM5	nodi meysydd i'w gwella yn eu gwaith ysgrifennu, golygu ac ailddrafftio.	Gallaf nodi meysydd i wella fy ngwaith ysgrifennu, golygu ac ailddrafftio.
	Strwythur a threfniadaeth	7.WS1	addasu strwythurau wrth ysgrifennu ar gyfer cyd-destunau gwahanol, <i>e.e. disgrifio canlyniad, amlinellu proses neu drafod dadl</i>	Gallaf addasu strwythurau wrth ysgrifennu i wahanol ddibenion. <i>e.e. disgrifio canlyniad, amlinellu proses neu drafod dadl</i>
		7.WS2	dewis a threfnu syniadau a gwybodaeth er mwyn rhoi adroddiad clir a chyflawn	Yr wyf yn gallu dewis a threfnu syniadau a gwybodaeth i roi adroddiad clir a chyflawn.
		7.WS4	defnyddio paragraffau i drefnu darnau ysgrifennu hirach yn adrannau	Gallaf ddefnyddio paragraffau i drefnu darnau ysgrifennu hirach yn adrannau
Ysgrifennu'n gywir	Iaith	7.WL1	defnyddio iaith amhersonol i gyfleu syniadau a gwybodaeth, <i>e.e. mae'r llog yn cael ei gyfrifo gan..., mae siswrn miniog yn angenrheidiol i...</i>	Gallaf ddefnyddio iaith amhersonol i gyfleu syniadau a gwybodaeth <i>e.e. mae'r llog yn cael ei gyfrifo gan..., mae siswrn miniog yn angenrheidiol i...</i>
		7.WL2	defnyddio geirfa amrywiol a phwrpasol yn gywir gan gynnwys geiriau ac ymadroddion pwnc benodol.	Gallaf ddefnyddio geirfa amrywiol ac addas yn gywir, gan gynnwys geiriau allweddol ac ymadroddion pwnc benodol.

Archwiliad FfLIRh Blwyddyn 7 Ysgrifennu

Elfennau	Agweddau	Cod	Mae plant yn gallu:	Disgybl gyfeillgar
Ysgrifennu'n gywir	Llawysgrifen Gramadeg Atalnodi Sillafu	7.WG1	defnyddio ystod eang o strwythurau brawddeg gan ddewis cysyllteiriau i wneud i'r ystyr fod yn glir	Gallaf ddefnyddio ystod eang o strwythurau brawddeg gan ddewis cysyllteiriau i wneud i'r ystyr fod yn glir
		7.WG3	defnyddio'r ystod lawn o atalnodi'n gywir er mwyn gwneud i'r ystyr fod yn glir, <i>e.e.</i>	Gallaf ddefnyddio'r ystod lawn o atalnodi'n gywir i ychwanegu at yr ystyr <i>e.e. dynodi brawddegau</i>

			<i>dynodi brawddegau (atalnodau llawn) a chymalau (atalnod) a defnyddio collnodau'n gywir</i>	<i>(atalnodau llawn) a chymalau (atalnod) a defnyddio collnodau'n gywir</i>
		7.WG4	defnyddio amryw o strategaethau ac adnoddau i sillafu geirfa gyfarwydd ac anghyfarwydd a geiriau pwnc benodol yn gywir	Rwyf yn gallu defnyddio amryw o strategaethau ac adnoddau i sillafu geirfa gyfarwydd ac anghyfarwydd a geiriau pwnc benodol yn gywir
		7.WG6c	cynhyrchu llawysgrifen sy'n llifo ac sy'n ddarllenadwy	Rwyf yn gallu ysgrifennu mewn llawysgrifen sy'n llifo ac sy'n ddarllenadwy.
		7.WG7	Datganiad cyfrwng Cymraeg: ysgrifennu'n ramadegol gywir gan sicrhau bod amser a pherson y ferf yn gywir fel arfer yn ei gyd-destun	Gallaf ysgrifennu brawddegau'n gywir gan sicrhau bod amser a pherson y ferf yn gywir fel arfer yn ei gyd-destun
		7.WG8	Datganiad cyfrwng Cymraeg: defnyddio ystod o dreigladau'n gywir (treigladau meddal, trwynol a llaes) yn eu cyd-destun.	Gallaf ddefnyddio ystod o dreigladau'n gywir (treigladau meddal, trwynol a llaes) yn eu cyd-destun.

Archwiliad FfLIRh Blwyddyn 8 Llafaredd

Elfennau	Agweddau	Cod	Mae plant yn gallu:	Disgybl gyfeillgar
Datblygu a chyflwyno gwybodaeth a syniadau	Siarad	8.OS2	cyflwyno pynciau a syniadau'n gydlynus, gan ddefnyddio technegau'n effeithiol, e.e. <i>strwythur clir, hanesyn i gyflwyno enghraifft, casgliadau credadwy</i>	Gallaf gyflwyno pynciau a syniadau yn rhesymegol, gan ddefnyddio technegau effeithiol. e.e. <i>strwythur clir, hanesyn i ddangos, casgliadau credadwy</i>
		8.OS4	ymateb i farn eraill yn gadarnhaol a phriodol o gael eu herio	Gallaf ymateb yn gadarnhaol ac yn addas i safbwyntiau pobl eraill pan rwyf yn cael fy herio.
		8.OS5	amddiffyn dadl gyda gwybodaeth a rhesymau, e.e. <i>wrth chwarae rôl neu mewn dadl</i>	Gallaf amddiffyn dadl gyda gwybodaeth a rhesymau, e.e. <i>wrth chwarae rôl neu mewn dadl</i>
		8.OS6	Datganiad cyfrwng Cymraeg: defnyddio ystod o dreigladau'n gywir (treigladau meddal, trwynol a llaes) yn eu cyd-destun	Gallaf ddefnyddio ystod o dreigladau'n gywir

	Gwrando	8.OL1	ymateb yn gadarnhaol ac ystyrion i syniadau newydd a safbwyntiau gwahanol	Gallaf ymateb yn gadarnhaol ac ystyrion i syniadau newydd a safbwyntiau gwahanol
		8.OL3	gwrando ar wybodaeth a syniadau (ar sgrin neu'n fyw) a nodi sut mae tystiolaeth yn cael ei defnyddio, e.e. <i>i amddiffyn barn, neu ei chamddefnyddio, e.e. i gamarwain drwy orliwio.</i>	Gallaf wrando ar wybodaeth a syniadau (ar sgrin neu'n fyw) a nodi sut mae tystiolaeth yn cael ei defnyddio, e.e. <i>i amddiffyn barn, neu ei chamddefnyddio, e.e. i gamarwain drwy orliwio.</i>
	Cydwethredu a thrafodaeth	8.OC1	cymryd amrywiaeth o rolau, e.e. trefnu, rhoi camau gweithredu ar waith, mewn cyd-destunau grŵp mwy ffurfiol, e.e. wrth weithio gydag oedolion a chyfoedion anghyfarwydd	Gallaf gymryd amrywiaeth o rolau, e.e. trefnu, rhoi camau gweithredu ar waith, mewn cyd-destunau grŵp mwy ffurfiol, e.e. wrth weithio gydag oedolion a chyfoedion anghyfarwydd
		8.OC2	trafod safbwyntiau cyferbyniol, a thrafod y camau nesaf	Gallaf drafod safbwyntiau cyferbyniol, a thrafod y camau nesaf

Archwiliad FfLIRh Blwyddyn 8 Darllen

Elfennau	Agweddau	Cod	Mae plant yn gallu:	Disgybl gyfeillgar
Canfod, dethol a defnyddio gwybodaeth	Strategaethau darllen	8.RS2	defnyddio eu gwybodaeth am y canlynol: - tarddiadau a theuluoedd geiriau - cysrawen, strwythur y frawddeg a strwythur testun cyfan - cynnwys a chyd-destun - <i>i wneud synnwyr o eiriau, brawddegau a thestunau cyfan</i>	Gallaf ddefnyddio fy ngwybodaeth o:- - tarddiadau a theuluoedd geiriau - cysrawen, strwythur y frawddeg a strwythur testun cyfan - cynnwys a chyd-destun <i>i wneud synnwyr o eiriau, brawddegau a thestunau cyfan</i>
		8.RS5	defnyddio ystod o strategaethau, e.e. <i>darllen cyflym, darllen agos, anodi, rhagfynegi, i gipddarllen (sgimio) testunau i gael y neges, y syniadau a'r themâu allweddol, a'u llithr ddarllen (sganio) am wybodaeth fanwl</i>	Gallaf ddarllen gan ddefnyddio ystod o strategaethau e.e. <i>darllen cyflym, darllen agos, anodi, rhagfynegi, i gipddarllen (sgimio) testunau i gael y neges, y syniadau a'r themâu allweddol, a'u llithr ddarllen (sganio) am wybodaeth fanwl</i>
		8.RS8	dewis a dethol pa ffynonellau ar y rhyngwrwyd i'w llawrlwytho neu i'w dyfynnu,	Gallaf ddewis pa ffynonellau ar y rhyngwrwyd i'w llawrlwytho neu eu dyfynnu yn ôl eu dibynadwyedd a'u perthnasedd

			yn ôl eu dibynadwyedd a'u perthnasedd	
Ymateb i'r hyn a ddarllenwyd	Deall	8.RC1	canolbwyntio wrth ddarllen testunau, ar sgrin ac ar bapur, sydd yn newydd iddynt gan ddeall y wybodaeth sydd ynddynt	Gallaf ganolbwyntio wrth ddarllen testunau, ar sgrin ac ar bapur, sydd yn newydd i mi gan ddeall y wybodaeth sydd ynddynt
		8.RC3	dod o hyd i wybodaeth a thystiolaeth ychwanegol o ffynonellau gwahanol a'u defnyddio'n ddethol	Gallaf ddod o hyd i wybodaeth a thystiolaeth ychwanegol o ffynonellau gwahanol a'u defnyddio'n ddethol
		8.RC4	defnyddio casglu a dehongli i ddeall haenau o ystyr	Gallaf ddewis gwahanol haenau o ystyr trwy ddefnyddio casglu a dehongli.
		8.RC5	gwneud cysylltiadau rhwng testunau, eu themâu a'u cynnwys ffeithiol ac adnabod unrhyw bwyntiau sy'n cytuno â'i gilydd neu sy'n gwrth-ddweud ei gilydd	Gallaf gwneud cysylltiadau rhwng testunau, eu themâu a'u cynnwys ffeithiol ac adnabod unrhyw bwyntiau sy'n cytuno â'i gilydd neu sy'n gwrth-ddweud ei gilydd.
		8.RC6	darllen o amgylch pwnc sydd o ddiddordeb iddynt a datblygu dealltwriaeth ehangach drwy ymchwil.	Gallaf ddarllen o gwmpas pwnc sydd o ddiddordeb i mi a datblygu fy nealltwriaeth ymhellach drwy ymchwil.

Archwiliad FfLIRh Blwyddyn 8 Darllen

Elfennau	Agweddau	Cod	Mae plant yn gallu:	Disgybl gyfeillgar
Ymateb i'r hyn a ddarllenwyd	Ymateb a dadansoddi	8.RA3	crynhoi a chyfuno gwybodaeth, e.e. rhoi cyfrif cryno o bwnc eang, gan ddefnyddio ffynonellau gwahanol	Gallaf grynhoi a chyfuno gwybodaeth e.e. rhoi cyfrif cryno o bwnc eang, gan ddefnyddio ffynonellau gwahanol
		8.RA4	gwahaniaethu rhwng rhagfarn a gwrthrychedd ac esbonio sut maent yn wahanol	Rwyf yn gwybod pan mae rhagfarn yn cael ei defnyddio neu beidio, a gallaf esbonio sut maent yn wahanol
		8.RA5	adnabod gwahanol safbwyntiau ar bwnc ac unrhyw feysydd lle ceir cytuno a gwrth-ddweud	Gallaf adnabod gwahanol safbwyntiau ar bwnc ac unrhyw feysydd lle ceir cytuno a gwrth-ddweud
		8.RA6	gwerthuso testunau yn ôl eu hansawdd a'u lefel diddordeb	Gallaf werthuso testunau yn ôl eu hansawdd a'u lefel diddordeb.

Archwiliad FfLIRh Blwyddyn 8 Ysgrifennu

Elfennau	Agweddau	Cod	Mae plant yn gallu:	Disgybl gyfeillgar	Defnyddio mewn meysydd eraill	
Trefnu syniadau a gwybodaeth	Ystyr, pwrpasau, darllenwyr	8.WM1	addasu cyflwyniad y deunyddiau yn ôl bwriad yr ystyr a'r effaith, <i>e.e. dewis faint o fanylion sy'n angenrheidiol i argyhoeddi</i>	Gallaf addasu cyflwyniad y deunyddiau yn ôl bwriad yr ystyr a'r effaith, <i>e.e. dewis faint o fanylion sy'n angenrheidiol i argyhoeddi</i>		
		8.WM2	gwneud cysylltiadau a/neu ymhelaethu er mwyn sicrhau eu bod yn ymdrin yn llawn â'r pwnc	Gallaf wneud cysylltiadau a/neu ymhelaethu er mwyn ymdrin yn llawn â'r pwnc		
		8.WM3	wrth gynllunio gwaith ysgrifennu, gwneud dewisiadau ynglŷn â'r cynnwys, strwythur, iaith, cyflwyniad sy'n addas at y diben	Gallaf gynllunio ysgrifennu i wneud dewisiadau ynghylch cynnwys, strwythur, iaith, cyflwyniad sy'n addas at y diben		
		8.WM4	ystyried y ffyrdd gorau o gyflwyno ysgrifennu gan ddefnyddio TGCh er mwyn cyfathrebu'n glir ac effeithiol, <i>e.e. rhyddiaith ddi-dor ar gyfer dadl fanwl, tudalennau â hyperddolenni ar gyfer gwybodaeth wahanol am y pwnc, graffeg sy'n symud i ddangos prosesau</i>	Gallaf ddewis y ffyrdd gorau o gyflwyno ysgrifennu gan ddefnyddio TGCh er mwyn ysgrifennu yn glir ac yn effeithiol <i>e.e. rhyddiaith ddi-dor ar gyfer dadl fanwl, tudalennau â hyperddolenni ar gyfer gwybodaeth wahanol am y pwnc, graffeg sy'n symud i ddangos prosesau</i>		
		8.WM5	defnyddio meini prawf i adnabod ffyrdd o wella ac yna ailddrafftio	Gallaf ddefnyddio meini prawf i adnabod ffyrdd o wella ac yna ailddrafftio		
	Strwythur a threfniadaeth	8.WS1	defnyddio strwythur testun cyfan i fod yn gymorth i gyfleu a chyfathrebu'r ystyr, <i>e.e. gosod crynodeb ar y cychwyn neu'r diwedd, data mewn adroddiad neu atodiad, defnydd o dudalennau cynnwys, penodau</i>	Gallaf ddefnyddio strwythur testun cyfan i fod yn gymorth i gyfleu a chyfathrebu'r ystyr <i>e.e. gosod crynodeb ar y cychwyn neu'r diwedd, data mewn adroddiad neu atodiad, defnydd o dudalennau cynnwys, penodau</i>		
		8.WS2	dewis, dadansoddi a chyflwyno syniadau a gwybodaeth yn argyhoeddiadol neu'n wrthrychol	Gallaf ddewis, dadansoddi a chyflwyno syniadau a gwybodaeth yn effeithiol heb ragfarn		
		8.WS4	trefnu darnau ysgrifennu hirach gan wneud cysylltiadau o fewn a rhwng paragraffau	Gallaf drefnu darnau hirach o ysgrifennu gan wneud cysylltiadau o fewn a rhwng paragraffau		
	Ysgrifennu'n gywir	laith	8.WL1	defnyddio'r trydydd person i gyfleu syniadau a gwybodaeth, <i>e.e. yn ôl arbenigwyr ..., dywed ffynonellau fod ...</i>	Gallaf ddefnyddio trydydd person i bortreadu syniadau a gwybodaeth <i>e.e. yn ôl arbenigwyr ..., dywed ffynonellau fod ...</i>	

		8.WL2	defnyddio termau technegol, iaith a mynegiant yn gyson â chynnwys y pwnc	Gallaf ddefnyddio termau technegol, iaith a mynegiant addas i'r pwnc/testun
--	--	--------------	--	---

Archwiliad FfLIRh Blwyddyn 8 Ysgrifennu

Elfennau	Agweddau	Cod	Mae plant yn gallu:	Disgybl gyfeillgar
Ysgrifennu'n gywir	Llawysgrifen Gramadeg Atalnodi Sillafu	8.WG1	ysgrifennu'n ramadegol gywir, gan amrywio hyd a strwythur brawddegau i wneud i'r ystyr fod yn glir	Gallaf ysgrifennu'n gywir, gan amrywio hyd a strwythur brawddegau i ychwanegu at yr ystyr
		8.WG3	defnyddio'r ystod lawn o atalnodi er mwyn gwneud i'r ystyr fod yn glir, <i>e.e. hanner colon, colon, dyfynodau</i>	Gallaf ddefnyddio'r ystod lawn o atalnodi er mwyn ychwanegu at yr ystyr <i>e.e. hanner colon, colon, dyfynodau</i>
		8.WG4	defnyddio amryw o strategaethau ac adnoddau i sillafu geirfa gyfarwydd ac anghyfarwydd a geiriau pwnc benodol yn gywir	Gallaf ddefnyddio amryw o strategaethau ac adnoddau i sillafu geirfa gyfarwydd ac anghyfarwydd a geiriau pwnc benodol yn gywir
		8.WG6c	cynhyrchu llawysgrifen sy'n llifo ac sy'n ddarllenadwy	Gallaf ysgrifennu mewn llawysgrifen sy'n llifo ac sy'n ddarllenadwy
		8.WG7	Datganiad cyfrwng Cymraeg: ysgrifennu'n ramadegol gywir gan sicrhau bod amser a pherson y ferf yn gywir fel arfer yn ei gyd-destun	Gallaf ysgrifennu brawddegau'n gywir gan sicrhau bod amser a pherson y ferf yn gywir fel arfer yn ei gyd-destun
		8.WG8	Datganiad cyfrwng Cymraeg: defnyddio ystod o dreigladau'n gywir (treigladau meddal, trwynol a llaes) yn eu cyd-destun.	Gallaf ddefnyddio ystod o dreigladau'n gywir

Archwiliad FfLIRh Blwyddyn 9 Llafaredd

Elfennau	Agweddau	Cod	Mae plant yn gallu:	Disgybl gyfeillgar
Datblygu a chyflwyno gwybodaeth a syniadau	Siarad	9.OS2	cyflwyno syniadau a materion yn argyhoeddedig gan ddefnyddio amryw o dechnegau i greu effaith, e.e. <i>cwestiynau rhethregol, apelio at y gwrandawyr, ystumiau</i>	Gallaf gyflwyno syniadau a materion yn argyhoeddedig gan ddefnyddio amryw o dechnegau i greu effaith, e.e. <i>cwestiynau rhethregol, apelio at y gwrandawyr, ystumiau</i>
		9.OS4	ymateb i adwaith y gwrandawyr gan addasu'r hyn y maent yn ei ddweud a sut maent yn ei ddweud	Gallaf ymateb i adwaith gwrandawyr gan addasu'r hyn yr wyf yn ei ddweud a sut yr wyf yn ei ddweud
		9.OS5	cynnal dadl argyhoeddedig, rhagweld safbwyntiau eraill ac ymateb iddynt, e.e. <i>wrth chwarae rôl neu mewn dadl</i>	Gallaf gynnal dadl argyhoeddedig. Gallaf ragweld ac ymateb i syniadau gwrthwynebus e.e. <i>wrth chwarae rôl neu mewn dadl</i>
		9.OS6	Datganiad cyfrwng Cymraeg: defnyddio ystod o dreigladau'n gywir (treigladau meddal, trwynol a llaes) yn eu cyd-destun	Gallaf ddefnyddio ystod o dreigladau'n gywir yn y cyd-destun (treigladau meddal, trwynol a llaes) yn eu cyd-destun
	Gwrando	9.OL1	ystyried perthnasedd ac arwyddocâd gwybodaeth a syniadau a gyflwynwyd iddynt	Gallaf ystyried perthnasedd a phwysigrwydd gwybodaeth a syniadau a gyflwynwyd i mi.
		9.OL3	gwrando ar wybodaeth a syniadau ac adnabod sut maent yn cael eu cyflwyno i hybu safbwynt penodol, e.e. <i>defnyddio iaith sy'n darbwyllo/perswadio, anwybyddu ffeithiau anghyfleus, dod i gasgliad afresymegol.</i>	Gallaf wrando ar wybodaeth a syniadau ac adnabod sut maent yn cael eu cyflwyno i hybu safbwynt penodol, e.e. <i>defnyddio iaith sy'n darbwyllo/perswadio, anwybyddu ffeithiau anghyfleus, dod i gasgliad afresymegol.</i>
	Cydweithredu a thrafodaeth	9.OC1	ymgymryd ag amrywiaeth o rolau mewn trafodaeth grŵp gan gymryd mwy o gyfrifoldeb dros eu barn, gan gynnwys mewn sefyllfaoedd mwy ffurfiol, e.e. <i>cadeirydd, ysgrifennydd</i>	Gallaf ymgymryd ag amrywiaeth o rolau mewn trafodaeth grŵp heb gymorth, gan gynnwys mewn sefyllfaoedd mwy ffurfiol e.e. <i>cadeirydd, ysgrifennydd</i>
9.OC2		nodi bod amrywiaeth o ddewisiadau o ran camau gweithredu a dod i gytundeb er mwyn cyflawni amcanion y grŵp.	Gallaf nodi bod amrywiaeth o ddewisiadau o ran camau gweithredu a dod i gytundeb er mwyn cyflawni amcanion y grŵp.	

Archwiliad FfLIRh Blwyddyn 9 Darllen

Elfennau	Agweddau	Cod	Mae plant yn gallu:	Disgybl gyfeillgar
Canfod, dethol a defnyddio gwybodaeth	Strategaethau darllen	9.RS2	defnyddio eu gwybodaeth am y canlynol: - tarddiadau a theuluoedd geiriau - cystrawen, strwythur y frawddeg a strwythur testun cyfan - cynnwys a chyd-destun - i wneud synnwyr o eiriau, brawddegau a thestunau cyfan	Gallaf ddefnyddio fy ngwybodaeth o: - tarddiadau a theuluoedd geiriau - cystrawen, strwythur y frawddeg a strwythur testun cyfan - cynnwys a chyd-destun <i>i wneud synnwyr o eiriau, brawddegau a thestunau cyfan</i>
		9.RS5	defnyddio ystod o strategaethau, e.e. <i>darllen cyflym, darllen agos, anodi, rhagfynegi, i gipddarllen (sgimio) testunau i gael y neges, y syniadau a'r themâu allweddol, a'u llithr ddarllen (sganio) am wybodaeth fanwl</i>	Gallaf ddarllen gan ddefnyddio ystod o strategaethau e.e. <i>darllen cyflym, darllen agos, anodi, rhagfynegi, i gipddarllen (sgimio) testunau i gael y neges, y syniadau a'r themâu allweddol, a'u llithr ddarllen (sganio) am wybodaeth fanwl</i>
		9.RS8	defnyddio'r rhyngrwyd yn llawn gan ddedhol yn ofalus er mwyn diweddarau, ehangu a dyfnhau dealltwriaeth o wybodaeth, syniadau a materion.	Gallaf ddefnyddio'r rhyngrwyd yn llawn gan ddedhol yn ofalus er mwyn diweddarau, ehangu a dyfnhau fy nealltwriaeth o wybodaeth, syniadau a materion.
Ymateb i'r hyn a ddarllenwyd	Deall	9.RC1	canolbwyntio wrth ddarllen testunau, ar sgrin ac ar bapur, sydd yn newydd iddynt gan ddeall y wybodaeth sydd ynddynt	Gallaf ganolbwyntio wrth ddarllen testunau, ar sgrin ac ar bapur, sydd yn newydd i mi gan ddeall y wybodaeth sydd ynddynt
		9.RC3	chwilio am ddeunyddiau ychwanegol mewn testunau a'u defnyddio i ehangu dealltwriaeth	Gallaf chwilio am ddeunyddiau ychwanegol mewn testunau a'u defnyddio i ehangu fy nealltwriaeth.
		9.RC4	dod i ddeall testunau'n llawn gan ddefnyddio technegau casglu, dehongli a dadansoddi	Gallaf gael dealltwriaeth llawn o destunau gan ddefnyddio technegau casglu, dehongli a dadansoddi.
		9.RC5	cymharu a chyferbynnu themâu a materion ar draws ystod o destunau	Gallaf gymharu a chyferbynnu themâu a materion ar draws ystod o destunau.
		9.RC6	ymchwilio i ystod eang o ffynonellau i ddatblygu dealltwriaeth llawn o bwnc	Gallaf ymchwilio i ystod eang o ffynonellau i ddatblygu dealltwriaeth llawn o bwnc.

Archwiliad FfLIRh Blwyddyn 9 Darllen

Elfennau	Agweddau	Cod	Mae plant yn gallu:	Disgybl gyfeillgar
Ymateb i'r hyn a ddarllenwyd	Ymateb a dadansoddi	9.RA3	cyfuno a dadansoddi gwybodaeth er mwyn hybu dealltwriaeth ddofn, e.e. o achosion, canlyniadau, patrymau, gan ddefnyddio ffynonellau gwahanol	Gallaf gyfuno a dadansoddi gwybodaeth i gael dealltwriaeth ddofn e.e. achosion, canlyniadau, patrymau, gan ddefnyddio ffynonellau gwahanol
		9.RA4	gwahaniaethu rhwng ffeithiau/tystiolaeth a rhagfarn/dadl	Gallaf wahaniaethu rhwng ffeithiau/tystiolaeth a rhagfarn/dadl
		9.RA5	adnabod gwahanol ddehongliadau ar ffeithiau a gwybodaeth a'u cloriannu	Gallaf adnabod gwahanol ddehongliadau ar ffeithiau a gwybodaeth a'u cloriannu.
		9.RA6	gwerthuso pa mor ddefnyddiol a dibynadwy yw testunau.	Gallaf werthuso pa mor ddefnyddiol a dibynadwy yw testunau.

Archwiliad FfLIRh Blwyddyn 9 Ysgrifennu

Elfennau	Agweddau	Cod	Mae plant yn gallu:	Disgybl gyfeillgar
Trefnu syniadau a gwybodaeth	Ystyr, pwrpasau, darllenwyr	9.WM1	crynhoi, trafod materion ac esbonio'n fanwl fel y bo'n briodol at y diben	Gallaf ysgrifennu gan grynhoi, trafod materion ac esbonio'n fanwl fel y bo'n briodol at y diben
		9.WM2	pwysu a mesur tystiolaeth, ffynonellau, esboniadau a rhesymeg wrth ymdrin â phwnc	Gallaf bwysu a mesur tystiolaeth, ffynonellau, esboniadau a rhesymeg wrth ymdrin â phwnc
		9.WM3	cynllunio mewn modd priodol i ddatblygu ysgrifennu at ddibenion a chynulleidfaedd gwahanol	Gallaf gynllunio mewn modd priodol i ddatblygu ysgrifennu at ddibenion a chynulleidfaedd gwahanol
		9.WM4	gwneud dewisiadau dychmygus ynghylch cynnwys a chyflwyniad gwaith ysgrifennu, gan ddefnyddio TGCh drwy wahaniaethu	Gallaf wneud dewisiadau dychmygus ynghylch cynnwys a chyflwyniad gwaith ysgrifennu, gan ddefnyddio TGCh drwy wahaniaethu
		9.WM5	gwella'u gwaith ysgrifennu trwy adolygiad annibynnol ac aildrafftio	Gallaf adolygu fy ngwaith ysgrifennu ar fy mhen fy hun ac aildrafftio i'w wella
	Strwythur a threfniadaeth	9.WS1	dewis a dethol strwythurau testun cyfan er mwyn bod yn gymorth i gyfleu a chyfathrebu'r ystyr, <i>e.e. beth yw'r strwythurau gorau i ddisgrifio, esbonio a pherswadio'n llwyddiannus?</i>	Gallaf ddewis a dethol strwythurau testun cyfan er mwyn bod yn gymorth i gyfleu a chyfathrebu'r ystyr <i>e.e. beth yw'r strwythurau gorau i ddisgrifio, esbonio a pherswadio'n llwyddiannus?</i>
		9.WS1 a	dewis strwythurau i drefnu gwaith ysgrifennu, gan ddefnyddio nodweddion priodol yn effeithiol	Gallaf ddewis strwythurau i drefnu gwaith ysgrifennu, gan ddefnyddio nodweddion priodol yn effeithiol
		9.WS2	dewis, dehongli a gwerthuso syniadau a gwybodaeth yn argyhoeddiadol neu'n wrthrychol	Gallaf ddewis, dehongli a gwerthuso syniadau a gwybodaeth yn argyhoeddiadol neu'n wrthrychol
		9.WS4	defnyddio paragraffau ac adrannau fel bod darnau ysgrifennu hirach wedi'u trefnu'n rhesymegol	Gallaf ddefnyddio paragraffau ac adrannau i roi strwythur i ddarnau hirach o ysgrifennu
	Ysgrifennu'n gywir	laith	9.WL1	defnyddio iaith er mwyn bod yn wrthrychol a diduedd, e.e. mae sawl agwedd wahanol ar y pwnc hwn...

		9.WL2	defnyddio ystod eang o dermau technegol, iaith a mynegiant yn gyson â chynnwys y pwnc	Gallaf ddefnyddio ystod eang o dermau technegol, iaith a mynegiant priodol ar gyfer y pwnc testun
--	--	--------------	---	---

Archwiliad FfLIRh Blwyddyn 9 Ysgrifennu

Elfennau	Agweddau	Cod	Mae plant yn gallu:	Disgybl gyfeillgar
Ysgrifennu'n gywir	Llawysgrifen Gramadeg Atalnodi Sillafu	9.WG1	ysgrifennu brawddegau syml, cyfansawdd a chymhleth yn ramadegol gywir	Gallaf ysgrifennu brawddegau syml, cyfansawdd a chymhleth yn gywir.
		9.WG3	defnyddio'r ystod lawn o atalnodi er mwyn gwneud i'r ystyr fod yn glir, e.e. <i>hanner colon, colon a chromfachau</i>	Gallaf ddefnyddio'r ystod lawn o atalnodi i ychwanegu at yr <i>ystyr</i> , e.e. <i>hanner colon, colon a chromfachau</i>
		9.WG4	defnyddio amryw o strategaethau ac adnoddau i sillafu geirfa gyfarwydd ac anghyfarwydd a geiriau pwnc benodol yn gywir	Gallaf ddefnyddio amryw o strategaethau ac adnoddau i sillafu geirfa gyfarwydd ac anghyfarwydd a geiriau pwnc benodol yn gywir
		9.WG6c	cynhyrchu llawysgrifen sy'n llifo ac sy'n ddarllenadwy	Gallaf ysgrifennu mewn llawysgrifen sy'n llifo ac sy'n ddarllenadwy fel y gall eraill ei ddarllen.
		9.WG7	Datganiad cyfrwng Cymraeg: ysgrifennu brawddegau yn ramadegol gywir gan sicrhau bod amser a pherson y ferf yn gywir yn y cyd-destun	Gallaf ysgrifennu brawddegau cywir fel bod amser a pherson y ferf yn gywir yn y cyd-destun
		9.WG8	Datganiad cyfrwng Cymraeg: defnyddio ystod o dreigladau'n gywir (treigladau meddal, trwynol a llaes) yn eu cyd-destun.	Gallaf ddefnyddio ystod o dreigladau'n gywir yn eu cyd-destun.

Archwiliad FfLIRh Estyniad Llafaredd

Elfennau	Agweddau	Cod	Mae plant yn gallu:	Disgybl gyfeillgar
Datblygu a chyflwyno gwybodaeth a syniadau	Siarad	E.O1	<p>Mae dysgwyr yn parhau i ddatblygu eu sgiliau siarad a gwrando, a'u sgiliau wrth gyfrannu a gweithio gydag eraill mewn grwpiau. Maent yn rhugl mewn cyflwyniadau ffurfiol, yn ynganu'n glir ac yn defnyddio ystod o dechnegau, gan gynnwys dewis o eirfa, mynegiant, ystumiau a chyswllt llygad, i gyfleu eu syniadau. Maent yn llunio eu cyflwyniad fel y gall gwrandawyr ei ddilyn ac maent yn addasu eu defnydd o iaith yn effeithiol i wahanol ddibenion. Mewn cyd-destunau anffurfiol maent yn addasu i natur a maint y grŵp, ac yn defnyddio iaith gydweithredol, megis awgrymiadau a chynigion petrus, i ddod i gasgliadau a rennir.</p> <p>Maent yn gwrando'n ofalus ar siaradwyr unigol a thrafodaethau grŵp, gan gadw golwg ar syniadau a dadleuon a cheisio deall safbwyntiau pobl eraill. Gwelir eu sensitifrwydd gwrando wrth iddynt ddilyn syniadau pobl eraill, eu profi drwy eu defnyddio mewn gwahanol gyd-destunau, dadansoddi casgliadau, a beirniadu'n adeiladol. Mewn gwaith grŵp maent yn effro i'r hyn a fydd yn galluogi i'r grŵp symud ymlaen ac yn addasu eu cyfraniadau yn unol â hynny, yn cynnwys trefnu gweithgareddau, gan dynnu eraill i mewn a negodi i ddod i gasgliadau.</p>	<p>Rwyf yn parhau i ddatblygu fy sgiliau siarad a gwrando wrth weithio mewn grwpiau. Mewn cyflwyniadau ffurfiol gallaf siarad yn rhugl, yn glir a defnyddio ystod o dechnegau gwahanol. Rwyf yn dewis geiriau'n ofalus, gan ystyried fy mynegiant, ystumiau, iaith y corff a chyswllt llygad i gyfleu syniadau ac ymgysylltu diddordeb y gwrandawyr. Gallaf newid fy sgwrs yn effeithiol i wahanol ddibenion a chynulleidfaoedd. Mewn cyd-destunau anffurfiol, gallaf addasu i faint a chyfansoddiad y grŵp, a defnyddio iaith gydweithredol i gyrraedd consensws.</p> <p>Gallaf wrando'n ofalus ar unigolion a grwpiau gan gadw golwg ar syniadau a dadleuon a cheisio deall gwahanol safbwyntiau. Gallaf ddangos fy sensitifrwydd wrth wrando drwy ddilyn syniadau pobl eraill, eu profi drwy eu defnyddio mewn cyd-destunau gwahanol, dadansoddi casgliadau a beirniadu'n adeiladol. Mewn gwaith grŵp yr wyf yn effro i'r hyn a fydd yn galluogi i'r grŵp symud ymlaen ac rwyf yn addasu fy nghyfraniadau yn unol â hynny, yn cynnwys trefnu gweithgareddau, gan dynnu eraill i mewn a negodi i ddod i gasgliadau.</p>
	Gwrando			
	Cydweithredu a thrafodaeth			

Archwiliad FfLIRh Estyniad Darllen

Elfennau	Agweddau	Cod	Mae plant yn gallu:	Disgybl gyfeillgar
Canfod, dethol a defnyddio gwybodaeth	Strategaethau darllen	E.R1	<p>Mae dysgwyr yn adeiladu ar eu sgiliau a'u profiadau mewn darllen ar draws y cwricwlwm i ymdrin â thestunau argraffedig, ar y sgrin ac aml-foddol, yn hwylus. Mae ganddynt strategaethau i ymchwilio i faterion ac ymdrin â phynciau anghyfarwydd, gan gydnabod eu ffynonellau. Maent yn defnyddio technegau (cip ddarllen/sgimio, llithr ddarllen/sganio, anodi, rhagfynegi) i ddeall ystyr testunau heriol. Maent yn deall pwyntiau amlwg a naws ystyron, ac yn effro i wahanol ddehongliadau ar faterion a syniadau.</p>	<p>Gallaf adeiladu ar fy sgiliau a phrofiadau mewn darllen ar draws y cwricwlwm i ymdrin â thestunau argraffedig, ar y sgrin ac aml-foddol, yn hwylus. Gallaf ddefnyddio gwahanol strategaethau i ymchwilio i faterion ac ymdrin â phynciau anghyfarwydd, gan gydnabod fy ffynonellau. Gallaf ddefnyddio technegau (cip ddarllen/sgimio, llithr ddarllen/sganio, anodi, rhagfynegi) i ddeall ystyr testunau heriol. Rwyf yn deall pwyntiau amlwg a naws ystyron, ac yn effro i wahanol ddehongliadau ar faterion a syniadau.</p>
Ymateb i'r hyn a ddarllenwyd	Deall		<p>Maent yn gallu esbonio sut mae testunau yn defnyddio geiriau, lluniau, diagramau a lluniau i gyfleu ystyr a dylanwadu ar y darllenydd/gwylwr a gallant werthuso pa mor effeithiol yw technegau o'r fath. Maent yn defnyddio'r rhyngwyd yn graff, gan chwilio yn ddethol ac asesu dilysrwydd ac arwyddocâd yr hyn y maent yn ei ganfod. Maent yn dangos eu dealltwriaeth drwy ddadansoddi, cyfuno a herio'r hyn a ddarllenant.</p>	<p>Gallaf esbonio sut mae testunau yn defnyddio geiriau, lluniau, diagramau a lluniau i gyfleu ystyr a dylanwadu ar y darllenydd/gwylwr a gallaf werthuso pa mor effeithiol yw technegau o'r fath. Gallaf ddefnyddio'r rhyngwyd yn graff, gan chwilio yn ddethol ac asesu dilysrwydd ac arwyddocâd yr hyn yr wyf yn ei ganfod. Byddaf yn dangos fy nealltwriaeth drwy ddadansoddi, cyfuno a herio'r hyn yr wyf yn ei ddarllen.</p>

Archwiliad FfLIRh Estyniad Ysgrifennu

Elfennau	Agweddau	Cod	Mae plant yn gallu:	Disgybl gyfeillgar
Trefnu syniadau a gwybodaeth	Ystyr, pwrpasau, darllenwyr	E.W1	<p>Mae dysgwyr yn atgyfnerthu eu sgiliau a datblygu eu heffeithiolrwydd wrth fynegi syniadau, gwybodaeth a safbwyntiau. Maent yn llunio esboniadau a thrafodaethau gan ddefnyddio graffeg, arddangos gweledol a dyfeisiau cyflwyniadol eraill sy'n berthnasol i'r pwnc ac yn briodol i'r darlennydd. Maent yn dangos eu hymwybyddiaeth o wahanol ddarllenwyr trwy ddewis yn briodol o'u repertoire o arddulliau a strwythurau ac yn addasu eu defnydd o eirfa. Maent yn gallu ysgrifennu darnau estynedig, sy'n cynnwys tystiolaeth a gwybodaeth fanwl, a darnau byrrach sy'n crynhoi.</p> <p>Maent yn llunio brawddegau sy'n cysylltu syniadau at ei gilydd ac yn dangos y prif bwyntiau a'r is-bwyntiau'n glir. Maent yn defnyddio atalnodi'n gywir i esbonio'r ystyr, a sillafu termau technegol a geiriau cymhleth yn gywir, gan osgoi camgymeriadau cyffredin. Maent yn cyflwyno eu gwaith yn effeithiol, mewn llawysgrifen neu ar y sgrin, gan ddewis ffurf, delweddau a graffeg er mwyn gwella'r ystyr</p>	<p>Gallaf ddatblygu fy effeithiolrwydd wrth fynegi syniadau, gwybodaeth a safbwyntiau. Gallaf lunio esboniadau a thrafodaethau gan ddefnyddio graffeg, arddangos gweledol a dyfeisiau cyflwyniadol eraill sy'n berthnasol i'r pwnc ac yn briodol i'r darlennydd. Gallaf ddangos fy ymwybyddiaeth o wahanol ddarllenwyr trwy ddewis yn briodol o'm repertoire o arddulliau a strwythurau ac addasu fy nefnydd o eirfa. Gallaf ysgrifennu darnau estynedig, sy'n cynnwys tystiolaeth a gwybodaeth fanwl, a darnau byrrach sy'n crynhoi.</p> <p>Gallaf lunio brawddegau sy'n cysylltu syniadau at ei gilydd ac yn dangos y prif bwyntiau a'r is-bwyntiau'n glir. Gallaf ddefnyddio atalnodi yn gywir i esbonio'r ystyr, a sillafu termau technegol a geiriau cymhleth yn gywir, gan osgoi camgymeriadau cyffredin. Gallaf gyflwyno fy ngwaith yn effeithiol, mewn llawysgrifen neu ar y sgrin, gan ddewis ffurf, delweddau a graffeg er mwyn gwella'r ystyr.</p>
	Strwythur a threfniadaeth			
Ysgrifennu'n gywir	Iaith			
	Llawysgrifennu Gramadeg Atalnodi Sillafu			